Rhaglen Gyflawn

# CABINET

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Dydd Mawrth, 20fed Ebrill, 2021 |
| **AMSER** | 1.00 y.h. |
| **LLEOLIAD** | Cyfarfod Rhithiol |
| **PWYNT CYSWLLT** | Annes Siôn<br>01286 679490<br>cabinet@gwynedd.llyw.cymru |

## AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

| **Aelodau** | |
|---|---|
| Dyfrig L. Siencyn | Arweinydd |
| Dafydd Meurig | Dirprwy Arweinydd, Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| Craig ab Iago | Aelod Cabinet Tai |
| Gareth Wyn Griffith | Aelod Cabinet Amgylchedd |
| Nia Wyn Jeffreys | Aelod Cabinet dros Gefnogaeth Gorfforaethol |
| Dilwyn Morgan | Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc |
| Gareth Thomas | Aelod Cabinet Datblygu'r Economi a Chymuned |
| Ioan Thomas | Aelod Cabinet Cyllid |
| Catrin Wager | Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol |
| Cemlyn Rees Williams | Aelod Cabinet Addysg |

# RHAGLEN

| | **Eitem** | **Cyflwynir gan** | **Swyddog** | **Tud.** |
|---|---|---|---|---|
| 1 | YMDDIHEURIADAU | | | |
| 2 | DATGAN BUDDIANT PERSONOL | | | |
| 3 | MATERION BRYS | | | |
| 4 | MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU | | | |
| 5 | COFNODION CYAFARFOD A GYNHALIWYD AR 30 MAWRTH 2021 | | | 3 - 5 |
| 6 | SICRHAU FOD Y GRANT CYMORTH TAI YN ARWAIN AT Y GEFNOGAETH ORAU POSIB I'R DIGARTREF YNG NGWYNEDD | Cyng. Craig ab Iago | Dafydd Gibbard | 6 - 26 |

**Y CABINET DYDD MAWRTH, 30 MAWRTH 2021**

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Dyfrig Siencyn, Dafydd Meurig, Craig ab Iago, Gareth Griffith, Dilwyn Morgan, Gareth Thomas, Ioan Thoamas, Catrin Wager a Cemlyn Williams.

**Hefyd yn bresennol-**
Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Iwan Evans (Pennaeth Cyfreithiol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid) ac Annes Siôn (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

Eitem 6: Geraint Owen (Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol), Mannon Trappe (Uwch Reolwr Diogelu, Sicrwydd Ansawdd a Iechyd Meddwl).
Eitem 7: Roland Evans (Pennaeth Cynorthwyol Diwylliant, Economi a Chymuned) a Sian Jones (Rheolwr Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.
Derbyniwyd ymddiheuriad gan Cyng. Nia Jeffreys a Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol).

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nid oedd unrhyw faterion brys.

**4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU**

Nid oedd unrhyw fater yn codi o drosolwg a chraffu.

**5. COFNODION CYAFARFOD A GYNHALIWYD AR 9 MAWRTH 2021**

Bu i'r Cadeirydd dderbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mawrth 2021 fel rhai cywir.

**6. TREFNIADAU CWYNION A GWELLA GWASANAETH Y CYNGOR**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dafydd Meurig

**PENDERFYNIAD**

I. Mabwysiadwyd trefn gwynion newydd i'r Cyngor yn unol ag Atodiad 1.
II. Dynodwyd Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol fel y Swyddog Cyfrifol.
III. Derbyniwyd yr adroddiadau blynyddol a Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod nifer o elfennau i'r adroddiad. Amlygwyd elfen cwynion yr Adran Oedolion gan nodi ei fod yn safonol i gyflwyno adroddiad cwynion yn flynyddol. Mynegwyd fod dau gam ar gyfer cwynion sef datrysiad lleol ac yna ymchwiliad llawn. Pwysleisiwyd fod yr adran yn dysgu gwersi yn dilyn pob cwyn ac yn eu defnyddio ar gyfer gwella gwasanaeth. Ychwanegwyd er bod yr adroddiad yn canolbwyntio ar gwynion ei fod hefyd yn cydnabod y gwaith da sydd yn cael ei wneud o fewn yr adran yn ogystal gydag adran benodol yn yr adroddiad yn amlygu'r sylwadau da  sydd wedi ei derbyn.

Nododd y Swyddog Monitro fod argymhelliad cyntaf yr adroddiad yn gofyn i'r Cabinet i fabwysiadu trefn gwynion newydd, gan bwysleisio fod y drefn hon yn benodol ar gyfer cwynion corfforaethol. Mynegwyd fod Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2019 wedi cyflwyno sail statudol i drefniadau cwynion y Cyngor.  Ychwanegwyd fod y model yn adlewyrchu'r drefn a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn 2014, ac felly mai dim ond man newidiadau fydd angen ei gwneud. Ategwyd yn ogystal y bydd y Swyddog Monitro yn camu yn ôl ac y bydd Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol yn cael ei ddynodi fel y Swyddog Cyfrifol.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd yr angen am amserlen gweithredu.
- Mynegwyd fod yr Adran Blant a Chefnogi Teuluoedd wedi blaenoriaethu cwynion. Ychwanegwyd eu bod wedi rhoi pwyslais ar roi gwybodaeth am gwyno i drigolion ac yn cynnig gwasanaeth gafael llaw ar gyfer trigolion sydd yn cwyno er mwyn rhoi cefnogaeth lwyr i'r unigolion. Amlygwyd fod nifer y cwynion yng ngham 1 wedi codi ond mae hyn o ganlyniad i'r adran yn nodi pob ymholiad maent yn ei dderbyn. Ymhelaethwyd fod yr adran yn cael adroddiad cynhwysfawr chwarterol ac yn dadansoddi'r cwynion er mwyn gwella'r gwasanaeth.
- Nododd Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol fod gostyngiadau wedi bod mewn cwynion ond bellach fod mesur mewn lle i fesur sawl  diwrnod mae'n ei gymryd i ddelio gyda chŵyn. Esboniwyd bellach ei bod oddeutu 7 diwrnod i ddelio gyda chŵyn.
- O ran y sylw ar gymal 7.3 yr adroddiad ar gwynion yn y maes Oedolion gofynnwyd pam bod gohirio gweithredu wedi bod ar argymhellion yr Ombwdsmon pan mai ymddiheuro ac atgoffa staff am bwysigrwydd asesiadau oedd y prif argymhellion oedd yn disgyn ar y Cyngor. Nododd y swyddog nad oedd yr ateb ganddi ac y byddai'n ymchwilio gan hysbysu'r Prif Weithredwr o'r rhesymau.
- Pwysleisiwyd fod natur rhai gwasanaethau yn golygu eu bod yn derbyn mwy o gwynion ond fod gwersi yn cael  ei dysgu gan bob cwyn.
- Mynegwyd fod yr ystadegau a sylwadau positif yn galonogol a diolchwyd i staff am eu gwaith.

## 7. EGWYDDORION ECONOMI YMWELD CYNALIADWY GWYNEDD2020

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Gareth Thomas.

**PENDERFYNIAD**

Cytunwyd ar Egwyddorion Economi Cynaliadwy Gwynedd ar sail drafft er mwyn cychwyn ar y broses ymgynghori gyda trigolion a busnesau Gwynedd.

Cytunwyd i barhau trafodaethau ar strwythur i weithredu'r egwyddorion i'r dyfodol gyda Pharc Cenedlaethol Eryri ac unrhyw bartner perthnasol arall.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi'r penderfyniad gan bwysleisio fod yr egwyddorion ar sail drafft er mwyn cychwyn ymgynghori gyda thrigolion a busnesau. Ategwyd fod cyfnod Covid-19 wedi atgyfnerthu'r angen i greu egwyddorion yn y maes Twristiaeth. Nodwyd y brif egwyddor oedd creu Economi Ymweld er budd a lles pobl Gwynedd. Esboniwyd y trafodaethau sydd wedi eu cynnal er mwyn creu'r egwyddorion drafft a oedd yn cynnwys gweithdai gydag aelodau, trafodaethau gyda Chroeso Cymru a'r sector twristiaeth. Ychwanegwyd y bydd trafodaethau pellach yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Mynegwyd fod y cam hwn yn gam pwysig i greu perthynas newydd o fewn y maes.
- Nodwyd fod y gwaith hwn yn holl bwysig gan fod y maes mor bwysig i'r ardal.
- Esboniwyd fod yr egwyddorion yn rhai da a clir ond ei fod yn holl bwysig fod cymunedau nid yn unig busnesau yn rhan o'r drafodaeth. Ychwanegwyd yr angen i'r trafodaethau gyda chymunedau gael ei chynnal ar sail yr 13 ardal sydd wedi eu hamlygu gan fod gofynion pob ardal am fod yn gwbl wahanol. Pwysleisiwyd yr angen i'r trafodaethau gael ei cynnal ar y cyd rhwng cymunedau a'r busnesau fel bod y deialog yn cael ei greu yn ogystal ac rhannu profiadau.
- Mynegwyd y bydd Uwch Gynhadledd yn cael ei gynnal yn yr Hydref a fydd yn cynnwys busnesau a chymunedau ble fydd modd cyflwyno'r egwyddorion ar ei ffurf olaf ac i greu camau gweithredu.
- Nodwyd cefnogaeth i'r egwyddorion gan fod angen sicrhau fod budd i'r cymunedau drwy dwristiaeth.
- Pwysleisiwyd y bydd pob ardal yn rhan o'r drafodaeth, ac nid y cymunedau ble mae nifer uchel o dwristiaeth.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00pm. a daeth i ben am 1.35 pm.

**CADEIRYDD**

CABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **Ebrill 20fed, 2021** |
| **Aelod Cabinet perthnasol:** | **Cyng Craig ab Iago** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Dafydd Gibbard - Pennaeth Tai ac Eiddo** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Sicrhau fod y Grant Cymorth Tai yn arwain at y gefnogaeth orau posib i'r digartref yng Ngwynedd** |

**Y Penderfyniad a geisir**

Gofynnir i'r Cabinet:

a) Gefnogi blaenoriaethu y defnydd o'r Grant Cymorth Tai fel a amlinellir ym mharagraff 36 yr adroddiad hwn.
b) Gefnogi yr egwyddor i barhau i gydweithio gyda darparwyr allanol er mwyn cynnig gwasanaethau cefnogol arbenigol ychwanegol i'r hyn y gellir ei ddarparu'n fewnol.
c) Nodi'r risg ynghlwm i'r grant refeniw yn y dyfodol (fel pob grant refeniw arall) a'r mesur lliniaru a nodir ym mharagraff 39 o'r adroddiad hwn.

**Cefndir**

1. Rhaglen a ariennir gan Lywodraeth Cymru yw'r Grant Cymorth Tai (arferai gael ei alw'n Rhaglen Cefnogi Pobl tan yn ddiweddar) sy'n cynorthwyo dros 2,000 o bobl bob blwyddyn yng Ngwynedd i fyw'n annibynnol. Mae'r rhaglen yn darparu cefnogaeth hanfodol i bobl sy'n wynebu amgylchiadau tai anodd iawn ac yn helpu rhai o'r bobl fwyaf bregus mewn cymdeithas i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain neu lety â chefnogaeth.

2. Rhaglen ymyrraeth gynnar ydyw sy'n helpu atal pobl rhag mynd yn ddigartref neu helpu pobl ddigartref i ddod o hyd i lety a dal gafael arno. Mae'n cefnogi pobl i fynd i'r afael â phroblemau megis dyled, diweithdra, rheoli tenantiaeth, camddefnyddio sylweddau, trais yn y cartref, cysgu allan a materion iechyd meddwl. Anelir y gefnogaeth at yr hyn mae pobl ei angen, e.e. help i ymdrin â phroblemau iechyd meddwl a/neu gamddefnyddio sylweddau, help i wella eu hiechyd a'u lles, a/neu help i symud ymlaen i gyfleoedd gwaith neu hyfforddiant, a gwella eu sgiliau byw cyffredinol.

3. Yn gryno, nod y rhaglen yw atal neu leihau digartrefedd a heb fodolaeth y grant hwn byddai effaith pellgyrhaeddol ar ein gallu fel Cyngor i gefnogi trigolion Gwynedd i

osgoi digartrefedd ac yn llesteirio'n gallu i geisio ail gartrefu mor fuan â phosib y rhai sydd ddigon anffodus i ddarganfod eu hunain yn ddigartref.

4. Tua diwedd 2019 cawsom ragrybudd fod bwriad gan y Llywodraeth i ail edrych ar y grant hwn ac roedd pryder y gallem fod yn wynebu toriad yn y swm yr ydym yn ei dderbyn ar hyn o bryd, sef £5.1M y flwyddyn. Roedd bwriad felly i baratoi at orfod cynnal proses flaenoriaethu er mwyn adnabod sut i leihau'r cymorth yr oeddem am allu ei gynnig i'r digartref yng Ngwynedd.


5. Fodd bynnag, mae'r argyfwng digartrefedd sydd wedi ei amlygu, ac i raddau helaeth wedi ei waethygu, yn sgil Covid 19, yn golygu fod dyfodol y grant hwn wedi newid yn llwyr. Yn hytrach na gorfod wynebu toriad posib, rydym bellach wedi derbyn dyraniad ychwanegol o £1.6M y flwyddyn ac felly'n wynebu sefyllfa gwbl wahanol. Mae gennym nawr gyfle i geisio sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau posib o'r arian newydd i ddarparu'r gefnogaeth orau posib i'r digartref yng Ngwynedd.

6. Derbyniwyd cadarnhad o'r dyraniad ychwanegol hwn fis Chwefror ac roedd angen cyflwyno cynllun gwario amlinellol i'r Llywodraeth o fewn y mis. Roedd yr amserlen hon yn golygu nad oedd cyfle i adrodd i'r Cabinet cyn cyflwyno'r rhaglen arfaethedig. Fodd bynnag, gellir newid y rhaglen yn flynyddol a gan mai cyfarwyddyd clir y Llywodraeth yw y dylem gynllunio'n hir dymor ar sail y gyllideb ychwanegol newydd hon, bydd cyfle i addasu ein rhaglen wariant ar gyfer 22/23 pe bai'r Cabinet yn dymuno i ni wneud hynny.

7. Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Gofal ar Fawrth 18fed, 2021, yn amlinellu'r cyfeiriad y bwriedir ei gymryd wrth lunio'r rhaglen wariant newydd. Bu i'r Aelodau gefnogi'r bwriad yn unfrydol.

**Digartrefedd yng Ngwynedd**

8. Fel y gwelir yn y graff isod, ers dyfodiad Deddf Tai 2014, oedd yn newid y diffiniad o ran pwy oedd yn gymwys am gefnogaeth digartrefedd, mae'r nifer cyflwyniadau blynyddol wedi cynyddu o oddeutu 550 y flwyddyn i oddeutu 750 y flwyddyn, cynnydd o 36%.



9. Arweiniodd hyn at bwysau sylweddol ar yr Uned Digartrefedd o ran eu gallu i gynnig cefnogaeth i unigolion sydd yn aml iawn yn fregus ac yn gwbl ddibynnol ar gymorth gan y Cyngor.

10. Yr her fwyaf oedd darganfod opsiynau ail gartrefu ar gyfer yr unigolion hyn, yn arbennig llety dros dro addas. Gwyddom fod y diffyg tai cyffredinol yn y Sir, a gweddill Cymru, yn golygu nad oes stoc digonol ar gael i ail gartrefu person digartref yn syth. Mewn achos lle nad oes gan berson digartref opsiwn arall, mae cyfrifoldeb statudol ar y Cyngor i gynnig llety dros dro. Cyn dyfodiad deddf 2014 roedd modd i'r Cyngor ymdopi drwy wneud defnydd o dai oedd gennym ar brydles gan Landlordiaid preifat ar gyfer y pwrpas hwn. Roedd oddeutu 60 o dai ar gael gennym i'r pwrpas hwn ar y pryd.

11. Gyda'r cynnydd sylweddol yn y niferoedd yn sgil Deddf 2014, nid oedd y stoc tai dros dro yn ddigonol i gwrdd â'r angen a bu'n rhaid cychwyn defnyddio mwy ar lety gwely a brecwast er mwyn cwrdd â'n dyletswydd statudol i gynnig llety brys.

12. Mae'r pandemig presennol wedi gwaethygu'r sefyllfa'n sylweddol unwaith yn rhagor. Yn gwbl synhwyrol a dealladwy, ar gychwyn y clo ym mis Mawrth 2020, gofynnodd y Llywodraeth i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru sicrhau nad oedd neb yn cysgu allan ar y stryd. Diwygiwyd y rheoliadau cenedlaethol dros nos er mwyn sicrhau fod gan bawb, ta waeth beth eu hamgylchiadau, y gallu i gael cefnogaeth gan eu Hawdurdod Lleol os oeddent yn wynebu digartrefedd.

13. Mae'r cyfnodau clo wedi cael effaith pellgyrhaeddol ar ein cymunedau ac mae'r bygythiad o golli cyflogaeth, y straen ar berthnasau mewn cyfnodau clo estynedig, y pwysau ar y gwasanaeth iechyd a'r effaith ar iechyd meddwl i gyd wedi cyfrannu at gynnydd sylweddol yn y nifer sy'n wynebu digartrefedd. Mae'r sefyllfa'n parhau i ddatblygu wrth gwrs ac ni wyddom pa fath o gynnydd pellach y byddwn yn ei wynebu dros y misoedd nesaf.

14. Fel y dengys y graff uchod, mae'r niferoedd digartref eleni wedi cynyddu nes eu bod yn agos at 950, sef cynnydd o 26% mewn un flwyddyn a 71% yn uwch nag oedd yn 2014.

15. Un sgil effaith uniongyrchol yn deillio o hyn yw sefyllfa lle mae gennym bellach oddeutu 94 o unigolion mewn llety gwely a brecwast o'i gymharu ag oddeutu 25 yr adeg hon y llynedd. Rydym hefyd wedi gorfod cynyddu ein stoc o dai dros dro a bellach mae oddeutu 95 mewn defnydd gennym. Mae ein dwy hostel digartref hefyd yn llawn ac mae cyfanswm o dros 200 o unigolion, cyplau a theuluoedd mewn llety dros dro yng Ngwynedd ar hyn o bryd.

16. Mae'r gost o gartrefu unigolion mewn llety gwely a brecwast yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru yn ystod y pandemig.

17. Rydym yn wynebu sefyllfa ddigynsail ac mae'r galw am lety dros dro y tu hwnt i'n gallu i'w gyfarch. Gyda dim arwyddion o welliant i'r sefyllfa yn y tymor byr, mae'r

sefyllfa yn eithriadol o heriol, gall y niferoedd gynyddu ymhellach a bellach mae pwysau sylweddol ar staff yr Uned Digartrefedd.

**Ymateb y Cyngor**

18. Nid yw llety dros dro, yn arbennig mewn un ystafell mewn llety gwely a brecwast, yn llety addas ar gyfer galluogi i drigolion Gwynedd fyw bywyd urddasol a ffyniannus. Mae mynediad at lety safonol a diogel yn gwbl hanfodol os am integreiddio i gymuned, hwyluso cyfleon gwaith a gwella ansawdd iechyd a lles unigolion.

19. Mae Strategaeth Tai y Cyngor yn datgan yn glir nad ydym yn dymuno gweld neb yn ddigartref yng Ngwynedd. Er mwyn cyrraedd y nod yma byddwn wrth gwrs angen sicrhau fod cyflenwad digonol o dai ar gael i gwrdd â'r angen drwy'r sir. Fodd bynnag, ni allwn guddio oddi wrth y ffaith ei bod yn debygol y byddwn wastad angen gallu cynnig cymorth a llety brys i'r rhai sy'n wynebu digartrefedd.

20. Ein dyhead felly yw dirwyn i ben y gorddefnydd o lety gwely a brecwast drwy ddarparu cyflenwad digonol o dai dros dro a datblygu llety â chefnogaeth addas ein hunain ar gyfer ei ddefnyddio i ddiwallu'r gofyn hwn. Mae ein Cynllun Gweithredu Tai yn gosod allan yn glir sut y byddwn yn cyflawni hyn ac mae'n sicrhau fod cyllideb ddigonol i ddarparu adnodd o'r fath ar gael dros y blynyddoedd nesa. Gyda chymorth grant sylweddol gan Lywodraeth Cymru, byddwn yn datblygu dros 50 o unedau "Llety a Chefnogaeth" pwrpasol.

21. Mae angen i lety o'r fath gael ei leoli mewn lleoliadau sy'n golygu na fydd unigolion angen cael eu symud oddi wrth eu cymunedau. Mae'r mynediad at gefnogaeth teulu a chyfeillion, ynghyd â'r gallu i gael mynediad rhwydd at wasanaethau iechyd a lles cyfarwydd yn gwbl hanfodol wrth geisio wynebu sefyllfa druenus digartrefedd. Felly byddwn yn ceisio darparu ein datblygiadau "Llety â Chefnogaeth" newydd i gyd-fynd â'r galw ym mhob ardal o'r sir a gwneud popeth posib i osgoi'r angen i gludo pobl i gymunedau sy'n ddieithr iddynt.

22. Er y bydd hyn yn golygu y byddwn yn gallu cynnig llety dros dro o ansawdd derbyniol i'r rhai sy'n wynebu digartrefedd, nid yw llety yn unig am gwrdd ag anghenion cymhleth a heriol sydd yn amlach na pheidio ynghlwm i ddigartrefedd. Dyma pam mae'r Grant Cymorth Tai yn gwbl hanfodol.

23. Yn aml iawn mae unigolion sy'n wynebu digartrefedd angen cefnogaeth am gyfnod er mwyn ceisio dygymod â'u sefyllfa. Mae'r unigolion, cyplau a theuluoedd hynny sydd heb opsiwn ond derbyn llety brys gan y Cyngor yn aml iawn angen cefnogaeth ychwanegol i ddarganfod llety addas yn unig. Yn aml iawn maent angen cefnogaeth gyda materion yn ymwneud â thrais yn y cartref, dibyniaeth alcohol, dibyniaeth cyffuriau, iechyd meddwl, dyledion, troseddu, perthynas gyda chymar neu deulu wedi torri lawr.

24. Felly nid yw darparu llety addas ynddo'i hun am fod yn ddigonol i helpu unigolion digartref bregus i allu ymdopi â'r heriau eraill sydd yn gallu gwneud eu bywyd yn gymhleth iawn.

25. Mae'r Grant Cefnogaeth Tai yn darparu adnodd ariannol blynyddol ar gyfer darparu'r gefnogaeth yma. Mae hyn yn cynnwys darparu cefnogaeth ariannol sylweddol er mwyn gallu derbyn cymorth gan nifer o ddarparwyr arbenigol allanol. Gweler yn Atodiad A fanylion pellach am y gwasanaethau gwerthfawr a geir gan y sefydliadau a chyrff yma.

26. Yn ogystal â'r gefnogaeth allanol yma, mae rhan helaeth y gwasanaeth a gynigir i'r digartref yn cael ei ddarparu gan dîm profiadol o staff mewnol. Mae'r elfennau statudol i'r gwaith sy'n cael ei gyflawni gan y Tîm yma h.y. pwynt cyswllt cyntaf i'r digartref, cymorth i atal digartrefedd, cynnal asesiad anghenion, llunio cynllun cartrefu/cefnogaeth a darparu llety dros dro lle bo'n briodol. Ail gartrefu unigolion yn barhaol mewn llety addas yw'r prif nod wrth gwrs.

27. Yn ogystal â'r elfennau statudol hyn, mae'r tîm hefyd yn darparu cefnogaeth bellach, cwbl hanfodol, os am helpu unigolion i ail sefydlu eu hunain neu gorau oll i osgoi digartrefedd yn y lle cyntaf. Mae'r gefnogaeth hwnnw'n cynnwys cymorth i:

- ddatblygu sgiliau byw'n annibynnol da, megis siopa, coginio a glanhau;
- ddod yn hyderus wrth reoli arian a chyllidebu
- gael mynediad at iechyd a gofal cymdeithasol
- gysylltu â sefydliadau perthnasol eraill am gymorth a chyngor
- gael mynediad at addysg, cyflogaeth, hyfforddiant a chyfleoedd gwirfoddol
- ddod yn rhan o gymuned ehangach
- lenwi ffurflenni cais am dai a chysylltu â landlordiaid a hosteli
- baratoi i symud ymlaen i lety parhaol
- sefydlu cyflenwadau nwy/trydan
- gynnal tenantiaeth ac osgoi wynebu digartrefedd yr eildro

28. Mae'r adnodd staff sydd o fewn yr Uned Digartrefedd ar gyfer cefnogaeth tenantiaeth o'r math yma wedi aros yn weddol gyson ers cyn dyfodiad Deddf Tai 2014 ac felly mae'n seiliedig ar y niferoedd digartref bryd hynny. Yn ystod y pandemig rydym wedi gallu manteisio ar arian ychwanegol gan y Llywodraeth i gynyddu ein hadnodd cefnogaeth ac mae hynny wedi bod yn werthfawr tu hwnt wrth geisio rhoi cymorth i'n cleientaid.

29. Yn sgil y cynnydd o 71% yn y niferoedd digartref ers sefydlu'r tim cefnogaeth cyn 2014, bellach rydym yn gweithredu ar raddfa staffio o un swyddog cefnogaeth i oddeutu bob 60 o unigolion sydd angen cefnogaeth. Nid oes modd i un swyddog gefnogi cynifer o unigolion bregus a chanlyniad hyn yw bod unigolion yn methu a dygymod a'r cymhlethdodau yn eu bywydau sy'n eu rhwystro rhag gallu darganfod cartref parhaol ac o ganlyniad yn gorfod treulio llawer rhy hir mewn llety dros dro.

30. Mae arian newydd y Grant Cymorth tai yn rhoi'r cyfle i ni wneud yn iawn am y sefyllfa yma. Mae modd chwyddo maint y tim cefnogaeth fewnol yn sylweddol gyda'r nod o anelu at un swyddog yn cefnogi oddeutu 25 o unigolion bregus yn hytrach na'r 1:60 presennol. Ar sail y gwaith cynllunio gweithlu sydd wedi ei gyflawni hyd yma rhagwelir y bydd y newid hwn (gan gynnwys y gweithlu fydd ei angen i staffio'r llety â chefnogaeth newydd) yn arwain at benodi 13 swyddog llawn amser a 6 swyddog rhan amser ychwanegol i'r hyn sydd gennym ar hyn o bryd. Mae'r arian ychwanegol gan y Llywodraeth yn rhoi'r cyfle i ni roi trefniadau cefnogaeth briodol mewn lle am y tro cyntaf ers 2014.

**Y rhaglen wario amlinellol**

31. Er mwyn llunio rhaglen wario amlinellol, cynhaliwyd ymgynghoriad brys gyda'r holl ddarparwyr allanol sydd ar hyn o bryd yn darparu cefnogaeth i'r digartref dan faner y Grant Cefnogaeth Tai.

32. Nodir ym mharagraff 19 ac 20 uchod ein bwriad, fel rhan o'n Cynllun Gweithredu Tai, i fod yn datblygu dros 50 o unedau Llety â Chefnogaeth ledled y sir. Bydd costau refeniw ynghlwm i'r datblygiadau hyn ac felly mae angen eu cynnwys yn ein rhaglen wario amlinellol ar gyfer y Grant hwn.

33. Rhoddwyr cyfle hefyd i staff yr unedau gwaith digartrefedd sy'n darparu gwasanaethau rheng flaen gyflwyno eu hargymhellion hwythau, yn benodol ar gyfer cynyddu'r gefnogaeth y gallwn ei ddarparu i bob unigolyn sydd angen ein cymorth.

34. Bu cyfle hefyd i ymgynghori gyda phreswylwyr presennol ein dwy hostel digartref ac roedd cefnogaeth gref i'r bwriad o ddarparu llety fydd yn y dyfodol yn hunangynhaliol yn hytrach na gorfod rhannu cyfleusterau cegin ac ymolchi gyda phreswylwyr eraill.

35. Gweler yn atodiad B Asesiad Cydraddoldeb sy'n rhoi ystyriaeth i'r cyfeiriad y bwriedir ei ddilyn.

36. Yn dilyn proses flaenoriaethu lefel uchod o fewn yr amser oedd ar gael, sefydlwyd y dyraniad amlinellol canlynol:

| Pennawd gwario | Dyraniad amlinellol |
|---|---|
| Ymestyn y bartneriaeth bresennol gyda darparwyr allanol gan gynnwys Shelter, Nacro, Cais, Gorwel a Cyfle. | £430,000 |
| Cynlluniau Rhanbarthol ar y cyd gyda Chynghorau eraill y Gogledd | £50,000 |
| Costau refeniw Llety â Chefnogaeth newydd y Cyngor | £200,000 |
| Gwella'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan y Cyngor:<br>• Cynyddu'r gefnogaeth uniongyrchol i'r digartref (fel a amlinellir ym mharagraff 26 uchod)<br>• Sefydlu gwasanaeth 24 awr y dydd ac ar benwythnosau. | £560,000 |

| | |
|---|---|
| • Sicrhau presenoldeb gwasanaethau cefnogol priodol ym Mangor.<br>• Cynyddu'r adnodd ail sefydlu carcharorion digartref.<br>• Cynyddu'r capasiti staffio yn ein Hosteli er mwyn gwella cyfleon i unigolion digartref gael eu hail gartrefu'n gyflym. | |
| Swm heb ei ddyrannu hyd nes bydd gwaith dichonoldeb pellach wedi ei gwblhau yn ystod y flwyddyn. | £360,000 |

37. Mae'r darparwyr allanol a gyfeirir atynt yn y tabl uchod yn gyfrifol am gefnogaeth arbenigol sy'n canolbwyntio yn benodol ar bobl tu allan i'r ddarpariaeth gwasanaeth prif lif. Mae'r gefnogaeth sydd yn cael ei gynnig yn eang ac yn cynnwys darparu llety brys i bobl sy'n ddigartref neu'n ffoi rhag cam drin domestig ag atal dadfeddiant gan Landlordiaid (sectorau cyhoeddus a phreifat). Mae'r ddarpariaeth hefyd yn elfen bwysig i ategu'r gwaith a gyflenwir gan yr Uned Ddigartrefedd gan gynnig opsiynau gwahanol i ddarparu Tai a Chymorth a hefyd cymorth tenantiaeth. Fel canlyniad, mae'n cyfrannu at ddarparu dyletswyddau'r Cyngor i gyflawni Deddf Tai (Cymru) 2014.

38. Mae galw sylweddol a chynyddol am wasanaethau trais yn y cartref, iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, aml gefnogaeth, cyngor ariannol ynghyd â chefnogaeth generig trwy'r Sir. Fel canlyniad i'r buddsoddiad ychwanegol, bydd modd ymateb yn uniongyrchol i'r cynnydd yn y galw hwn am wasanaethau cefnogol tai. Bydd y buddsoddiad yn galluogi cynnydd sylweddol yn y nifer o gleientiaid bregus a gefnogir yng Ngwynedd, nid yn unig trwy wella iechyd corfforol a meddyliol yr unigolion hyn, ond hefyd trwy arbed arian ac ysgafnhau'r baich i'r Uned Ddigartref a gwasanaethau cyhoeddus eraill (e.e. gwasanaethau iechyd, heddlu a gwasanaethau cymdeithasol).

39. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i bob awdurdod gynllunio yn hirdymor ar y sail y bydd y lefel newydd o Grant Cymorth Tai yn parhau fel ag y mae. Fodd bynnag, gan mai grant refeniw ydyw, mae angen bod yn ymwybodol y gallasai'r lefel grant leihau ar rhyw bwynt yn y dyfodol. Byddwn erbyn hynny wedi penodi nifer o unigolion i fod yn darparu'r gwasanaethau newydd a amlinellir yn yr adroddiad hwn. Pe bai'r grant yn lleihau byddwn angen cynnal ymarferiad blaenoriaethu ar draws yr holl raglen £6.7M er mwyn adnabod lle fyddai'n cael lleiaf o effaith ar ein gwasanaethau. Mae'r cynlluniau a amlinellir yn yr adroddiad hwn yn ymateb yn uniongyrchol i'r sefyllfa sy'n ein hwynebu erbyn heddiw ac felly'n annhebygol o gael eu blaenoriaethu mewn ymarferiad toriadau yn y dyfodol. Nid ydym yn rhagweld risg felly o orfod cyfarch costau diswyddo yn y dyfodol.

40. Bydd y gweithgareddau arfaethedig posibl yn sgil y cynnydd yn y CGT yn cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni nodau llesiant Cyngor Gwynedd, yn enwedig ar gyfer cefnogi pobl i fyw mewn tai o ansawdd yn eu cymunedau. Mae gwella llesiant pobl yng Ngwynedd trwy fesurau i atal digartrefedd yn sail i waith yr adran gyda phartneriaid i ymateb i anghenion tai. Mae'r 'pum ffordd o weithio' yn ogystal ag egwyddorion cyffredinol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn

rhan annatod o'r defnydd a wneir o'r CGT a bydd y cynnydd yn y dyraniad yn galluogi'r Cyngor i gefnogi mwy o bobl i ddarganfod tai addas ar gyfer eu hanghenion.

**Casgliadau**

41. Yn sgil cynnydd o 71% yn y niferoedd digartref, ni all yr Uned Digartrefedd gwrdd â'r galw am eu gwasanaeth ar hyn o bryd.

42. Nid yw'r defnydd o lety dros dro mewn gwely a brecwast yn gynaliadwy ac nid yw'n cynnig llety o ansawdd derbyniol i hwyluso gallu unigolion, cyplau a theuluoedd i oresgyn sefyllfaoedd truenus a byddwn yn datblygu "llety â chefnogaeth" addas ein hunain gan anelu i ddirwyn i ben yr angen i ddefnyddio llety gwely a brecwast.

43. Byddwn yn ceisio darparu "llety â chefnogaeth" o fewn y cymunedau lle mae'r galw gan drigolion y sir gan osgoi'r angen i symud unigolion i gymunedau sy'n ddieithr iddynt.

44. Nid yw darparu llety addas ynddo'i hun am wella ein sefyllfa digartrefedd gan fod yr unigolion bregus sydd yn ein gofal angen cefnogaeth lawer iawn gwell na'r hyn sydd wedi bod yn bosib i ni ei gynnig ers 2014.

45. Byddwn felly yn blaenoriaethu'r arian ychwanegol a ddaw drwy'r Grant Cymorth Tai yn unol â'r dyraniad amlinellol a nodir ym mharagraff 36 er mwyn sicrhau ein bod yn darparu'r gwasanaeth digartrefedd gorau posib i drigolion ein sir.

---

**Barn yr Aelod Lleol:** Ddim yn fater lleol

**Barn y Swyddogion Statudol:**

**Y Swyddog Monitro:**

Mae'r hyn a argymhellir yn cynnig cynllun priodol ar gyfer defnydd y Grant gan nodi y bydd amodau yr ariannu yn berthnasol I'r gweithgaredd.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Rwyf yn croesawu'r arian ychwanegol sydd wedi cael ei dderbyn er mwyn cynorthwyo gyda'r dasg barhaus o geisio mynd i'r afael â digartrefedd o fewn Gwynedd. Fel mae'r adroddiad yn nodi, mae'r Cyngor wedi derbyn £1.6m ychwanegol ar gyfer 2021/22, ac roedd rhaid datblygu cynlluniau hyfyw i ddefnyddio'r arian yma mewn cyfnod byr.

Mae'r tabl a geir ym mharagraff 36 yn amlinellu'r cynlluniau er mwyn defnyddio'r £1.6m o arian ychwanegol, sy'n ymddangos yn rhesymol a chyraeddadwy. Mae'r adroddiad yn cydnabod y risg sy'n bodoli o wynebu costau diswyddo petai'r cynllun grant yn dod i ben neu'n cael ei gwtogi, ond mae'r risg yma yn gymharol fychan o'i gymharu â'r budd sy'n

deillio o'r cynllun, ac mae'n risg y bydd modd i'r Cyngor ddygymod ag ef petai'r grant yn cael ei dorri yn y dyfodol.

**Atodiadau**

Atodiad A – Darparwyr a ariennir drwy’r Grant Cymorth Tai presennol.
Atodiad B – Asesiad Cydraddoldeb

**ADAIN CEFNOGI POBL**

# PWY SY'N GALLU DARPARU GWASANAETHAU GRANT CEFNOGI TAI YNG NGWYNEDD?

# CYFARWYDDIADUR O DDARPARWYR GWASANAETH WEDI EU HACHREDU

Penrallt, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1BN
☎ 01286 682603 unedpobl@gwynedd.gov.uk

Mawrth 2021

**Adra (Tai) Cyfyngedig ☎: 0300 123 8084 Ymholiadau@adra.co.uk www.adra.co.uk**
**Bangor:** Ty Coch, Llys y Dderwen, Parc Menai, Bangor LL57 4BL
**Caernarfon:** Ty Buddug, Doc Fictoria, Caernarfon LL55 1SR
**Porthmadog:** Uned 6A/7A Parc Busnes Penamser, Porthmadog, LL49 9GB
**Dolgellau:** Swyddfa Glan Wnion, Ffordd Aran, Dolgellau LL40 1LH
Yn darparu cartrefi gyda warden cefnogol a llinellau gofal i bobl hŷn, ac unigolion gydag anghenion cefnogaeth yng Ngwynedd.

**Age Cymru Gwynedd a Môn, Y Cartref, Bontnewydd, Caernarfon, Gwynedd LL54 7UW ☎ 01286 677711**
I hyrwyddo lles pobl hŷn yng Ngwynedd ac Ynys Môn drwy ffyrdd yr ystyrir yn elusengar. I wella ansawdd bywyd i bobl hŷn a'u gofalwyr.

**Allied Health Care, Islawr Llawr Gwaelod Plas Yn Dre, Stryd Plas Yn Dre Street, Dolgellau, LL40 1AD ☎ 01341 423733 ac Uned 6B, Llys Onnen, Parc Menai, Bangor. LL57 4DF ☎ 01248 674925**
Yn darparu gwasanaethau gofal cartref i bobl oedrannus, gydag elfen fwy personol. Gofal dydd, gofal preswyl 24 awr, gwasanaeth deffro yn y nos, cysgu i mewn. Gwasanaethau cefnogaeth a seibiant i bobl gydag anableddau dysgu.

**Anheddau Cyf., 6 Llys Britannia, Parc Menai, Bangor, Gwynedd, LL57 4BN ☎ 01248 675910**
Darparwr gofal cymdeithasol yn gweithio efo unigolion gydag anghenion cefnogaeth yng Ngwynedd.

**Antur Waunfawr, Bryn Pistyll, Waunfawr, Caernarfon, LL55 4BJ ☎ 01286 650721**
Yn darparu cefnogaeth 24 awr y dydd, yn y gwaith, yn y cartref ac ar gyfer gweithgareddau Iechyd a Llesiant i oedolion ag anableddau dysgu yn Arfon.

**Bywyd Bywiog Cyf, Gwylfa, Nebo LL54 6EE bywydbywiog@yahoo.co.uk**
Nod Bywyd Bywiog yw darparu tai a chefnogaeth / chefnogaeth symudol ar gyfer pobl Ifanc 16-21 ac i oedolion gydag anawsterau iechyd meddwl
Cefnogi'r unigolyn i gael/cynnal ei denantiaeth, datblygu sgiliau i fyw yn annibynnol ac i gael bywyd llawn ac i deimlo'n hapus.

**CAIS, Dawn Centre, Rhodfa'r Tywysog, Bae Colwyn, LL29 8PD ☎ 01492 523690**
Yn darparu ystod helaeth o wasanaethau yn cynnwys dadwenwyno cleifion mewnol, ailsefydlu preswyl, symud ymlaen yn y gymuned a chwnsela cyfrinachol yn y gymuned yng Ngwynedd.

**Cartrefi Cymru Co-op, 30 Stryd y Deon, Bangor, LL57 1UR ☎ 01248 360004**
Ein nôd yw darparu gwasanaeth Gofal a Chefnogaeth personol arbenigol sy'n seiliedig ar anghenion unigol i bobl i fyw bywyd da ac i wneud y pethau sy'n bwysig iddynt. Gwnawn hyn drwy ddarparu'r gwasanaethau canlynol: Byw â Chefnogaeth 24 awr, Cefnogaeth Sesiynol, Gofal Cartref a Thai Gofal Ychwanegol, Cefnogaeth Cysylltiedig â Thai.

**Gwasanaethau Cefnogol Cyfle, 80 Madoc Street West, Porthmadog, LL49 9EA ☎ 01766 514004**
Yn darparu llety symud ymlaen a chefnogaeth estyn allan. Cefnogaeth symudol gyda chefnogaeth ar alwad 24 awr i bobl ifanc, rhieni sengl a theuluoedd rhwng 16-25 mlwydd oed yn Ne Gwynedd.

**Cymdeithas Cynghori ac Adfocatiaeth Gogledd Cymru, 14a Ashcourt, Parc Menai, Bangor, Gwynedd, LL55 4DF ☎ 01248 670852**
Yn darparu gwasanaeth adfocatiaeth ar faterion hawliau dinesig, materion tai, gwaith, gwasanaethau dydd, budd-daliadau ac yn y blaen i bobl gydag anabledd dysgu, rhieni, gofalwyr, darparwyr gwasanaethau neu unrhyw un sydd yn credu y gallwn helpu.

**Cyngor Gwynedd Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Arfon (derbynfa) – Swyddfa Ardal Arfon, Penrallt, Caernarfon, LL55 1BN ☎ 01286 682646**
**Dwyfor (derbynfa)– Frondeg, Pwllheli ☎ 01758 613131**
**Meirionnydd (derbynfa) – Cae Penarlag, Dolgellau, LL40 2YB ☎ 01341 422341**
Yn darparu gwasanaethau cefnogi i bob grŵp defnyddwyr gwasanaeth yng Ngwynedd.

**Cyngor Gwynedd Adran Tai**
**Gwasanaeth Cefnogaeth Tenantiaeth - Arfon ☎ 01286 6828860 / Dwyfor ☎ 01758 704030 / Meirionnydd ☎ 01341 424336**
Yn darparu'r cymorth sydd ei angen i gynnal tenantiaeth ac i fyw bywyd annibynnol.

**Grŵp Cynefin, Tŷ Silyn, Y Sgwâr, Penygroes, Caernarfon LL54 6LY ☎ 0300 1112 122**
Yn darparu a rheoli ystod eang o lety gan gynnwys rhai hefo llinell argyfwng. Hefyd yn darparu cymorth mewn sawl maes i helpu cynnal tenantiaethau a byw bywyd annibynnol gan gynnwys Tai Gwarchod a Tai Gofal Ychwanegol.

**Tai Gogledd Cymru, 30 Stryd y Deon, Bangor, LL57 1UR ☎: 01492572727**
CustomerServiceMailbox@nwha.org.uk/
Supported.Housing@nwha.org.uk
Yn darparu ac yn rheoli ystod eang o gynlluniau tai cefnogol yn amrywio o hosteli i'r digartref i dai a rennir a fflatiau hunangynhaliol. Yn darparu ystod o wasanaethau cefnogaeth i bob grŵp cleient yng Ngogledd Gwynedd. Mae'r tîm Estyn Allan ac Ail Sefydlu yn gweithio gyda phobl sydd yn cysgu allan, ac yn cynnig cefnogaeth a gwybodaeth sydd yn helpu pobl i ail sefydlu mewn llety addas. Hefyd ym Mangor, cynllun tai gwarchodol i bobl hŷn dros 60 oed gyda gwasanaeth Warden, a Gofal Ychwanegol i bobl dros 55.

**GISDA, 22 / 23 Y Maes, Caernarfon LL55 2NA ☎ 01286 671153**
Rydym yn darparu llety a chefnogaeth i bobl ifanc digartref a bregus gan gynnwys teuluoedd ifanc ar draws Gwynedd. Mae gennym brosiectau eraill sydd yn cefnogi Nod ac Amcanion yr elusen yn ogystal.

**GISDA, Yr Hen Go-op, 49 Stryd Fawr, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd. LL41 3AG ☎ 01766 830260**

Rydym yn darparu llety a chefnogaeth i bobl ifanc digartref a bregus gan gynnwys teuluoedd ifanc ar draws Gwynedd. Mae gennym brosiectau eraill sydd yn cefnogi Nod ac Amcanion yr elusen yn ogystal.

**Gorwel, 12 Stryd Penlan, Pwllheli, LL53 5DE ☎ 01758 703087 digartrefedd@gorwel.org**

Yn darparu a rheoli ystod eang o gynlluniau tai â chymorth yn amrywio o hosteli ar gyfer y digartref, tai a rennir a fflatiau hunangynhwysol yng Ngwynedd. Mae'r darpariaeth hefyd yn cynnwys Cynllun Cefnogaeth Symudol ledled Gwynedd.

**Gorwel, 12 Stryd Penlan, Pwllheli, LL53 5DE ☎ 01758 703087 cydgysylltydd@gorwel.org**

Yn darparu cymorth fel y bo'r angen i bobl sydd â nifer o anghenion cefnogaeth (e.e. iechyd meddwl, anabledd dysgu lefel isel, pobl sy'n gadael carchar, yn datgysylltu'n aml gyda darpariaeth cefnogi) yng Ngwynedd

**Gorwel - Gwasanaethau Trais yn y Cartref ☎ 0300 1112 122 gorwel@gorwel.org**

Yn cynnig lloches (merched yn unig) a gwasanaethau cymorth yn y gymuned fel y bo'r angen i ferched, dynion a'u plant, sy'n cael eu heffeithio gan gam-drin domestig yng Ngwynedd.

**Hafan Cymru, 12B Ash Court, Parc Menai, Bangor, LL57 4DF ☎ 01248 671891**
**enquires@hafancymru.co.uk**

Tai cefnogol i ferched a'u plant, sydd wedi bod drwy gam-drin domestig yn y gorffennol neu'r presennol.

**NACRO, 64-68 Stryd Fawr, Bangor, Gwynedd, LL57 1NR ☎ 07483 0303196.**

Elusen cyfiawnder cymdeithasol sydd yn cynnig gwasanaethau cefnogaeth, yn ymwneud a materion tai, yn Ngwynedd.

**Seren, Uned 2 Llwyngell, Blaenau Ffestiniog LL41 3NE ☎ 01766 832378**

Yn darparu cefnogaeth 24 awr yn y cartref, yn y gweithle ac yn ystod gweithgareddau hamdden i oedolion ag anableddau dysgu yng Ngwynedd.

**Shelter Cymru, Beach Road, Y Felinheli, Bangor**
**☎ 01248 671005** yfelinheli@sheltercymru.org.uk

Yn darparu cymorth tenantiaeth annibynnol a gwasanaethau cefnogi yng Ngwynedd ar gyfer tenantiaid a pherchnogion tai sydd dan fygythiad o ddigartrefedd.

# Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

## 1 Manylion

### 1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

| |
|---|
| Grant Cymorth Tai |

### 1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Defnyddir y Grant Cymorth Tai (GCT) i ymateb i'r argyfwng cynyddol yn y maes tai yng Ngwynedd a chael gwared o anghydraddoldeb. Mae'r GCT yn cyfrannu at gyrraedd nod y Strategaeth Gweithredu Tai, sef bod:

- Neb yn ddigartref yng Ngwynedd
- Tai cymdeithasol ar gael i bawb sydd eu hangen
- Cartref pawb yng Ngwynedd yn fforddiadwy iddynt
- Tai Gwynedd yn llesol i'r amgylchedd
- Cartrefi yn cael dylanwad cadarnhaol ar iechyd a llesiant pobl Gwynedd.

Mae'r GTC yn rhan o raglen Llywodraeth Cymru a gynigir grantiau i:

- alluogi ymyrraeth cynnar i gefnogi gweithgarwch sy'n atal pobl rhag digartrefedd
- sefydlogi sefyllfa pobl o ran tai
- gynorthwyo pobl a allai fynd yn ddigartref i ddod o hyd i lety a'i gadw.

Mae'r cadarnhad o'r dyraniad ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/22 yn cynnwys cynnydd yn y grant, ac felly bydd angen sicrhau fod trefniadau'r GCT yn arwain at y gefnogaeth orau posib i'r digartref yng Ngwynedd. Er, dylid nodi nad yw'r Grant Cymorth Tai yn ariannu'r ddyletswydd statudol yr Awdurdod i atal digartrefedd.

### 1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

| |
|---|
| Dafydd Gibbard, Pennaeth Tai ac Eiddo |

### 1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

30/03/2021– fersiwn cyntaf

## 2) Gweithredu

### 2.1 Pwy yw'r partneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

Staff Adran Tai ac Eiddo
Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant
Cymdeithasau Tai o fewn Gwynedd
Pwyllgor Craffu Gofal

### 2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei gymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchodedig?

Cyrhaeddodd y cadarnhad ynglyn â'r ychwanegiad yn y dyraniad oddi wrth y Llywodraeth yn hwyr ac felly ni chafwyd llawer o amser i gyflwyno'r cais GCT diwygiedig. Fodd bynnag, cynhaliwyd ymgynghoriad brys gyda'r holl ddarparwyr allanol sydd ar hyn o bryd yn darparu cefnogaeth i'r digartref dan faner y Grant Cefnogaeth Tai. Gofynnwyd iddynt am gynlluniau posibl oedd yn cyd-fynd a blaenoriaethau'r Grant a'r Cyngor ill dau. Roedd hyn yn adeiladu ar gasgliadau y broses ymgysylltu a ddigwyddodd ar gyfer datblygu'r Strategaeth Gweithredu Tai 2021-2026.

### 2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

- Derbyniwyd sawl ymateb gan nifer o ddarparwyr yn amlinellu elfennau o'r gwasanaeth roeddent yn eu cynnig a sut byddai'r arian yn cyfrannu tuag at gryfhau'r ddarpariaeth.
- Ystyriwyd y sylwadau a dderbyniwyd yn llawn cyn cadarnhau a dychwelyd cynllun gwario'r Awdurdod gan ymgorffori rhai agweddau ar gyfer y cynlluniau presennol.
- Roedd yr ymarferiad hefyd yn ddefnyddiol i adnabod cynlluniau wrth gefn a gwasanaethau ychwanegol a allai fod yn rhan o'r Rhaglen ar gyfer y dyfodol.

### 2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

- Mae'r lefelau digartrefedd wedi bod yn cynyddu yn raddol ers 2014 ond eleni, mae'r nifer digartref wedi codi yn sylweddol nes bod y ffigwr yn agosáu at 950, sef cynnydd o 26% mewn un flwyddyn a 71% yn uwch nag oedd yn 2014.

- Mae effaith y pandemig presennol yn amlwg wedi cyfrannu at y gwaethygiad yn y sefyllfa bresennol. Un sgil effaith uniongyrchol sy'n deillio o hyn yw'r sefyllfa lle mae bellach oddeutu 94 o unigolion mewn llety gwely a brecwast o'i gymharu ag oddeutu 25 yr adeg yma y llynedd.

- Rydym hefyd wedi gorfod chwilio am opsiynau i gynyddu ein stoc o dai dros dro a bellach mae oddeutu 95 mewn defnydd gennym.

- Mae’r ddwy hostel ddigartref yn y Sir hefyd yn llawn ac mae cyfanswm o dros 200 o unigolion, cyplau a theuluoedd mewn llety dros dro yng Ngwynedd ar hyn o bryd.

**2.5 Oes yna unrhyw flychau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?**

Bydd unrhyw fylchau yn cael eu hadnabod yn ystod gweithredu’r Rhaglen ar gyfer 2021/22 trwy asesu a monitro’r cynlluniau unigol am unrhyw effaith ar gydraddoldeb.

**3) Adnabod yr Effaith**

**3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi neu wasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae croeso i chwi ychwanegu nodweddion eraill os ydych chi'n dymuno.**

| **Nodweddion** | **Sut fath o effaith? *** | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)** | Positif | Mae'r Cynllun wedi adnabod fod 98% o bobl wedi cadarnhau ethnigrwydd fel Gwyn ac roedd 2% o bobl o grwpiau ethnig eraill. Yn ôl yr Asesiad Marchnad Dai Lleol mae tystiolaeth o fewn y Sector Rhentu Preifat fod rhai darpar denantiaid yn wynebu gwahaniaethu oherwydd eu bod yn dod o leiafrif ethnig. Bydd y gwasanaethau sy'n rhan o'r grant yn cymhorthi pob unigolyn sy'n gymwys am gymorth yn ol eu hanghenion unigol. |
| **Yr iaith Gymraeg** | Positif | Gall cynyddu'r nifer o'r rhai sy'n elwa o'r pecynnau cefnogaeth arfaethedig olygu fod mwy o bobl leol yn dewis neu yn gallu aros yng Ngwynedd.<br><br>Bydd y buddsoddiad ychwanegol yn y Grant Cymorth Tai yn cefnogi polisi'r Cyngor i sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu darparu yn iaith ddewisol yr unigolyn. |
| **Anabledd** | Positif | Mae nifer o rwystrau i blant ag oedolion anabl ddod o hyd i dy addas a fforddiadwy, gyda phrinder o dai sy'n hygyrch a digon hyblyg ar gyfer eu haddasu. Yn ogystal, mae pobl anabl yn fwy tebygol o fyw mewn tlodi a phrofi amddifadedd difrifol nag eraill.<br><br>Mae'r cymorth mai bobl gydag Anabledd Dysgu yn derbyn oddi wrth y gwasanaethau yn cyfrannu mewn ffordd bositif at wella ansawdd bywyd yr unigolyn ac yn lleihau'r pwysau ac yn ategu'r gefnogaeth a geir oddi wrth Gofal Cymdeithasol ac Iechyd.<br><br>Mae'r canran o denantiaethau o dan fygythiad oherwydd materion iechyd meddwl ar gynnydd yn flynyddol. Mae cefnogi tenantiaid i barhau yn eu cartrefi yn rhan hanfodol o'n strategaeth i atal digartrefedd. Os na ellir atal digartrefedd, yna bydd angen cynyddu ymhellach ein hopsiynau llety dros dro a darparu mwy o lety â chefnogaeth, sydd yn gostus. Bydd yr arian ychwanegol yn cyfrannu at sicrhau fod arbenigedd i gynorthwyo'r unigolion bregus hyn i osgoi colli eu tenantiaeth. |
| **Rhyw** | Positif | Bwriedir i'r buddsoddiad ychwanegol gael effaith gadarnhaol ar bob rhyw.<br><br>Fodd bynnag, mae rhai cynlluniau penodol wedi eu hanelu i gwrdd ag anghenion gwahanol, gan gynnwys rhai heriau sy'n effeithio rhai nodweddion gwarchodedig yn fwy na'u gilydd.<br><br>Bydd y buddsoddiad ychwanegol yn cyfrannu at wasanaethau fydd yn sicrhau bod dioddefwyr cam-drin domestig a thrais rhywiol yn gallu cael mynediad i'r gefnogaeth maent eu hangen. Mae mwy o ferched (bron i 57%) yn derbyn cymorth o'r gwasanaethau o'i gymharu a dynion (43%). |

| | | |
|---|---|---|
| **Oedran** | Positif | Mae'r Grant Cymorth Tai yn ariannu gwasanaethau cefnogi sy'n ymwneud â thai i bobl dros 16 mlwydd oed . Bydd yr arian ychwanegol yn cynyddu'r nifer o unigolion bydd yn derbyn gwasanaethau ynghlwm a'r grant ac yn debygol o gael effaith positif ar eu sefyllfaoedd. Bydd pwyslais yn cael ei roi ar ddau grŵp benodol, sef pobl ifanc (16-24) a bobl dros 55.<br><br>Mae tua 16% o bobl ifanc (16-24) yn derbyn cymorth o'r grant. Mae'r angen am eiddo er mwyn 'symud ymlaen', hyfforddiant ar gyfer byw'n annibynnol a delio gyda materion aml gefnogaeth, wedi'i adnabod fel blaenoriaeth a bydd prosiect penodol yn edrych i gymhorthi hyn ar gyfer grŵp oedran 16-24.<br><br>Yn ogystal, mae tua 44% o bobl dros 55 yn derbyn cymorth o'r grant. Mae'r boblogaeth dros 80 yn cynyddu gyda nifer o'r tai hyn yn anaddas i'w galluogi i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi. |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Dim wedi ei adnabod | Nid oes unrhyw gynlluniau unigol yn ymwneud â'r nodweddion hyn. Fodd bynnag, bydd angen monitro cynlluniau unigol gan adnabod materion i'w hystyried ac os oes angen comisiynu cynlluniau ychwanegol.<br><br>Yn rhanbarthol, mae trafodaethau yn mynd rhagddynt i ystyried yr angen am brosiectau Celcio, Lloches i Ddynion a phrosiect LGBTQ yn y Gogledd. Bydd unrhyw asesiad cydraddoldeb yn cael ei addasu yn ddibynnol ar natur y sgyrsiau yn y Grŵp RHSCG. |
| **Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)** | Dim wedi ei adnabod | |
| **Ailbennu rhywedd** | Dim wedi ei adnabod | |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Dim wedi ei adnabod | |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | Dim wedi ei adnabod | |

**3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.**

| **Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb** | **A yw'n cael effaith?*** | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Ydi | Mae tystiolaeth yn dangos fod 60% o bobl Gwynedd wedi eu prisio allan o'r farchnad dai.<br><br>Mae'r Grant Cymorth Tai yn cyfrannu at ymdrechion y Strategaeth Gweithredu Tai i ddarparu llety addas a cheisio cael gwared a chamwahaniaethu. Yn ogystal, mae'r Grant yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal drwy leihau rhwystrau sy'n atal pobl Gwynedd rhag byw mewn llety sy'n cwrdd â'u hanghenion. Bydd y buddsoddiad ychwanegol yn codi'r nifer o bobl a fydd yn elwa o'r Grant. |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Ydi | |

<table>
<tr><td>Meithrin perthnasau da</td><td>Ydi</td><td rowspan="2">Mae’r Grant Cymorth Tai yn cynnig gwasanaethau mewn partneriaeth sy’n anelu cyrraedd pobl mewn gwir angen. Bydd yr arian ychwanegol yn ehangu’r cyfleoedd i hysbysu’r gwasanaethau ac yn edrych i feithrin perthynas dda wrth ymgynghori â phobl.<br><br>Mae’r Grant Cymorth Tai yn targedu rheini sy’n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol drwy gynllunio i’w cynorthwyo i ddod o hyd i lety a'i gadw. Bydd y buddsoddiad ychwanegol yn cyfrannu’n uniongyrchol at godi'r nifer o bobl a fydd yn elwa o’r gwasanaethau a gynigir o dan y Grant</td></tr>
<tr><td>Dyletswydd Economaidd Gymdeithasol</td><td>Ydi</td></tr>
</table>

## 4) Dadansoddi'r canlyniadau

### 4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?

Ydi. Mae'r rhaglen yn cynorthwyo dros 2,000 o bobl bob blwyddyn yng Ngwynedd i fyw'n annibynnol. Bydd y ddyraniad ychwanegol yn cymhorthi'r darparwyr a swyddogion Gwynedd i gynyddu'r cymorth sydd ar gael i unigolion sy'n cyflwyno eu hunain yn ddigartref neu all fod yn ddigartref. Bydd y trefniadau sydd yn cael eu hargymell yn chwyddo maint y tîm cefnogaeth fewnol yn sylweddol gyda'r nod o anelu at un swyddog yn cefnogi oddeutu 25 o unigolion bregus yn hytrach na'r 1:60 presennol. Mae'r arian ychwanegol gan y Llywodraeth yn rhoi'r cyfle i ni roi trefniadau cefnogaeth briodol mewn lle i ymateb i'r her cynyddol yn y maes.

### 4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?

Nid ydym yn rhagweld unrhyw effaith negyddol ond fel rhan o waith swyddogion y Cyngor byddwn yn monitro y cynlluniau perthnasol yn gyson ac yn paratoi adroddiadau blynyddol i Lywodraeth Cymru.

### 4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewiswch un o'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn | X |
| Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau | |
| Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr | |
| Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol | |

### 4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Mae trefniadau cadarn eisoes mewn lle i fonitro'r deilliannau mae'r cynlluniau a'r gwasanaethau penodol yn eu cyrraedd. Bydd ymgynghori parhaus yn mynd rhagddo gyda'r darparwyr i sicrhau bod y cynllun yn parhau i gynorthwyo i wasanaethu defnyddwyr, i adnabod ac i liniaru unrhyw effeithiau negyddol a fydd yn cael eu hadnabod gan y Cyngor neu'r darparwyr yn sgil y buddsoddiad ychwanegol.

**4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.**

| |
|---|
| Amherthnasol |

**5) Monitro**

**5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y  polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?**

| |
|---|
| Yn ôl amodau'r grant, mae'n ofynnol fod Awdurdodau Lleol yn sicrhau eu bod yn adolygu ac yn monitro pob contract sy'n gysylltiedig â'r Grant Cymorth Tai. Dylid trefnu hyn yn rheolaidd, o leiaf yn flynyddol, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â thelerau ac amodau'r Grant, gan ddefnyddio dull gweithredu ar sail risg. Yn ychwanegol, bydd angen i'r Cyngor ~~i~~ adolygu'n gyson er sicrhau bod y cynlluniau yn cyd-fynd â nod strategol y Cyngor ar gyfer y maes digartrefedd. |